# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd T.J. Thomas** **Ward:Ynysawdre**

## Plaid: Plaid Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Ynysawdre** ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 529 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Oherwydd fy mhatrolau cerdded a churo drysau rheolaidd, mae gennyf nifer uchel o atgyfeiriadau.

Siaradais yn erbyn y cais cynllunio ar gyfer y 450 o gartrefi arfaethedig ar dir i'r gorllewin o Heol Maesteg yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Rwyf hefyd wedi siarad mewn cyfarfod cyhoeddus o blaid sefydlu cymdeithas gymunedol i roi mwy o lais i'r cyhoedd.

Rwyf wedi sefydlu cyfarfod PACT lleol, ac mae nifer da o'r cyhoedd yn ei fynychu, ac ar bwnc troseddau a chydlyniant cymunedol, rwyf wedi cerdded o amgylch y ward gydag uwch-gyfarwyddwr yn V2C a'r PCSO. Rwyf hefyd wedi cyflwyno fy enw ar gyfer y Cynllun Patrolio i gerdded y bît gyda'r PCSO lleol yn y gymuned.

Trefnais gyfarfod rhwng trigolion lleol Hafod a'u huwch-reolwyr i fynd i'r afael â nifer o faterion a gwnaed gwaith dilynol llwyddiannus ar hyn.

Rwyf hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Halo i fynd i'r afael â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru gwael yn hwyr yn y nos ym maes parcio'r pwll

nofio.

Rwyf wedi trefnu sesiynau casglu sbwriel gyda Cadwch Gymru'n Daclus i fynd i'r afael â mater sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wrthi'n dyfarnu grant i Gyngor Cymuned Ynysawdre i hau blodau gwyllt ar fanc glaswellt ar Heol Maesteg. Mae fy Nghronfa Gweithredu yn y Gymuned hyd yma wedi'i gwario ar ddiffibriliwr newydd i'w storio yn Ysgol Gynradd Brynmenyn a rhoddwyd grant pellach ar gyfer beiciau a sgwteri i ddisgyblion.

Nodais gyfle cyllid gyda darparwr grant ar gyfer cit i Tondu United ac fel rhan o'm Cronfa Gweithredu yn y Gymuned, dyfernais ragor o arian iddynt ddatblygu eu tîm dan un deg tri a'r tîm cymysg dan wyth.

Rwyf wedi gweithredu pwyllgor digwyddiadau yng Nghyngor Cymuned Ynysawdre, sydd eisoes wedi cynnal helfa wyau Pasg ac mae'n cynnig ffair haf. Llwyddais i basio cynnig yn y cyngor cymuned i wneud Ynysawdre'n ‘ddi-blastig’ a bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i leihau'r defnydd afresymol o blastig. Lansiais yr un cynnig yn y Cyngor Bwrdeistref gyda'r casgliad y dylai gael ei drafod yn y pwyllgor craffu.

Cynigiais fod Ynysawdre hefyd yn dod yn bwyllgor cyfeillgar i ddementia, lle gwahoddwyd aelodau o BAVO i ddangos sut y gallem gyflawni hyn. Cynigiais gynnig ein bod yn datblygu'r prosiect hwn gyda nifer o argymhellion.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Heblaw am guro ar ddrysu yn rheolaidd, mae croeso i etholwyr gysylltu â mi dros y ffôn, drwy e-bost, a chyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb.

Rwyf hefyd yn cynnal cymhorthfa ar ail ddydd Sadwrn y mis, 10am yn Ystafelloedd y Plwyf.

Rwy'n falch iawn o fod yn rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Bro Ogwr, lle roeddwn yn rhan o'r panel cyfweld i gyflogi pennaeth a Choleg Cymunedol y Dderwen.

Rwyf wedi bod yn aelod rheolaidd mewn grwpiau cymunedol ac rwyf wedi mynd i ddigwyddiadau ar gyfer Tondu United, Clwb Bechgyn a Merched Abercynffig ac arddangosfa ar gyfer Cymdeithas Celfyddydau Tondu a'r Cylch.

**Y Cynghorydd T.J. Thomas:** **Dyddiad: 20/05/2019**